Llwybr Glyndŵr
TAITH BYR

LLWYBRAU CENEDLAETHOL
NATIONAL TRAILS



# Llangynllo i Drefyclo



Llwybr Glyndŵr uwchlaw Llangunllo ©Hawlfraint y Goron

## Manylion y llwybr

Taith drên â golygfeydd hyfryd ar Reilffordd Calon Cymru a chrwydro yn ôl ar y gororau yn ôl i dref Trefyclo. Cymysgedd o lonydd gwledig heddychlon a llwybrau glaswelltog gyda golygfeydd o fryniau yn y pellter.

**Pellter:** 7.5 milltir/12 km

## Cychwyn

Ewch ar drên o Drefyclo i orsaf hardd Llangynllo. Gan adael y platfform, ewch rhwng y ddau dŷ a throwch i'r chwith i'r lôn wledig dawel. Ar ôl 650m, ewch o dan bont y rheilffordd a throwch i'r chwith oddi ar y lôn i ymuno â Llwybr Glyndŵr (Pwynt A).

Ewch i lawr ymyl y cae, dros nant a dringo i lôn. Trowch i'r dde a cherdded am 700m i ganol Llangynllo a'i gwasgariad o dai llawn cymeriad.

O ganol y pentref, trowch i'r chwith a cherddwch ar hyd y ffordd am 300m at fynegbost sy'n eich cyfeirio i'r chwith i lwybr troed (Pwynt B). Dringwch i fyny gyda golygfeydd agored a chwilt clytwaith o anheddau a gwrychoedd y tu ôl i chi. Anelwch o dan orchudd coed nes i chi gyrraedd lôn.

Cerddwch i'r chwith ar hyd y lôn am 70m ac yna trowch i'r dde drwy gât i gerddwyr. Parhewch ar draws cyfres o gaeau cyn cyrraedd Fferm groesawgar Cefnsuran.

Ewch i'r chwith drwy gât cae'r iard ac yna i'r dde drwy gât i gerddwyr i gyrraedd dreif y tŷ. Trowch i'r chwith a heibio'r grid gwartheg i gyffordd gyda mynegbost. Parhewch ymlaen ac ar ôl 130m trowch i'r dde drwy gât cae ar drac.

Ar ôl 170m ewch drwy gât bren ar y chwith a dringwch yn hamddenol ar hyd ymyl y cae a thrwy gât cae i gwrdd â thrac glaswelltog. Trowch i'r chwith a pharhau dros nant ac i fyny at ymyl y cae at gât cae arall sy'n arwain at drac.

# Llwybr Glyndŵr **TAITH BYR**
# Llangynllo i Drefyclo




Trowch i'r dde ar hyd y llwybr glaswelltog a pharhau am 1.75km, gan gadw llinell y clawdd i'r dde i chi. Mae'r ddringfa raddol yn mynd â chi i ben bryniau agored a golygfeydd bendigedig cyn disgyn yn raddol i bostyn cyfeirbwynt ym Mhwynt C.

Trowch i'r dde a disgyn tuag at bwll. Parhewch ar hyd y llwybr gwrychoedd glaswelltog nes iddo gwrdd â thrac, sy'n arwain at lôn.

Ar ddiwedd y lôn, trowch i'r chwith, dringwch am 600m i gyffordd drionglog a throwch i'r dde. Ar ôl 100m cymerwch y llwybr glaswelltog, ar y dde, sy'n amgylchynu bryn coediog y Garth. Byddwch yn cyrraedd lôn serth, trowch i'r dde ac ar ôl 30m trowch i'r chwith i lawr y llwybr serth wrth ochr tai i ffordd B4355 Pen-y-bont.

Croeswch y ffordd a pharhau ar lwybr cul i ddod allan i Lôn y Felin. Croeswch lôn y Felin yn lletraws i'r llwybr sy'n rhedeg wrth ymyl nant Wylcwm. Mae'r llwybr yn dod allan i lôn ac yn ysgubo i fyny fel y dangosir gan y bysedd ar bolyn telegraff pren.

Dringwch y llwybr cul, gan groesi lôn fechan, ac ymddangos y brig ac ar Ffordd y Castell.

Parhewch a cherdded rhwng tai ar ochr y bryn, i ben The Narrows, stryd groesawgar, serth i gerddwyr. Ewch i lawr i feini sy'n marcio'r Llwybr Cenedlaethol. Archwiliwch y dref a dychwelyd i'r orsaf.

**Parcio:** Parcio am ddim ar gael yng Ngorsaf Rheilffordd Trefyclo i ddefnyddwyr y rheilffordd.
**Bws:** Amherthnasol
**Trên:** Lein Calon Cymru o Drefyclo i Langynllo.
**www.traveline.cymru**
**Gwybodaeth gyffredinol:** Mae digonedd o siopau bwyd, caffis a thafarndai yn Nhrefyclo.




Am fwy o wybodaeth am gynllunio eich taith gerdded, ewch i [www.nationaltrail.co.uk/cy_GB/trails/glyndwrs-way/circular-linear-walks](www.nationaltrail.co.uk/cy_GB/trails/glyndwrs-way/circular-linear-walks)